OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 509 (Cy.45)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*26 Chwefror 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*27 Chwefror 2008*
Yn dod i rym - -	*19 Mawrth 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**), â'r cyrff sy'n ymddangos iddynt yn rhai priodol a chynrychioliadol o ysgolion sydd o dan adran 2(1) o'r Ddeddf honno yn darparu lleoedd drwy gymorth, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 3(1), (2), (5) a (9) o'r Ddeddf honno(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 19 Mawrth 2008.

(2) Mae rheoliad 3 yn gymwys o ran Cymru mewn cysylltiad â chwestiwn lleddfu perthnasol.

(3) Ym mharagraff (2) uchod, ystyr "cwestiwn lleddfu perthnasol" yw cwestiwn lleddfu o dan Reoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) 1997 ac—

(a) sy'n codi mewn cysylltiad â blwyddyn ysgol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2007; a

(b) nad yw wedi'i benderfynu ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006

2. Ar ddiwedd paragraff (3) o reoliad 1 o Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006(**3**), mewnosoder "cyhyd ag nad yw'r cwestiwn yn un y cyfeirir ato ym mharagraff (3) rheoliad 1 o Reoliadau Addysg (Cymorth Lleoedd) (Diwygio) (Cymru) 2008".

(**1**) 1997 p. 59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(**2**) Yr oedd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru: *gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a'r cofnod mewn cysylltiad â Deddf Addysg (Ysgolion) 1997 yn Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2006/3097 (Cy.281).